# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Gorffennaf 2il 2024 yn Neuadd Mynach. Yn bresennol oedd Dewi Pritchard (cadeirydd), Gwenda Evans, Eilir Rowlands, Eifion Davies, Rita Jones, Alwyn Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Bethan Thomas ac Iolo V. Evans.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfodydd mis Mehefin a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Roedd Arolygwr Priffyrdd Cyngor Gwynedd wedi edrych ar y gangen a oedd yn dod drosodd i'r ffordd ger Cynlas Bach, Cefnddwysarn ond nid oedd yn achosi pryder iddo ar hyn o bryd ac mi fyddai'n cadw golwg ar y sefyllfa.
ii) Dŵr yn llifo ar wyneb y ffordd a thwll yn y tarmac ger Crogen – cafwyd cadarnhad fod gweithlu Cyngor Gwynedd wedi cael cyfarwyddiadau i glirio ochrau'r ffordd i rwystro'r dŵr ddod i lawr ac i atgyweirio'r tyllau.
iii) Sbwriel ar ochr y A494, Bethel – roedd y mater wedi cael ei anfon ymlaen i'r Uned Glanhau Strydoedd.
iv) Coed mynedfa Clwb Carafanau Crynierth – roedd y brif swyddfa wedi cysylltu'n nôl ac yn awyddus i ddatrys unrhyw bryderon oedd gan y trigolion lleol. Roedd y clerc wedi anfon lluniau o'r coed er mwyn iddynt cael trafod y gwaith gyda'u contractwr.

b) Mynwentydd.
Diolchwyd i Alwyn Jones ac Eilir Rowlands am eu gwaith ym mynwent Frongoch a chytunwyd i archebu pridd a llogi offer addas er mwyn lefelu'r tir.

c) Dŵr Cymru - Llyn Celyn.
Cafwyd adroddiad gan Alwyn Jones o'r hyn a welwyd yn ystod y bore agored ar yr argae.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Gwaharddiad Trafnidiaeth trwodd dros dro – Cefnddwysarn i Gwm Main, 5/07/24 a Bethel i Glanrafon, 9/09/24 & Heol yr Eglwys (B4402), 19/09/24.
ii) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd.

b) Cwmni Pum Plwy Penllyn.
i) Tegid360 – Ein Lle ar y We, gwybodaeth am y dudalen newyddion sydd nawr ar gael ar y we.

c) Cantref.
i) Arddangosfa Y Bala 700 – Yma o Hyd

**v) Ceisiadau Cynllunio.**

a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol:-
C24/0484/04/RC - Diwygio cytundeb adran 106 er mwyn dileu cymalau 3(c) a 3(d), Melin Meloch, Llanfor.
Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i wrthwynebu cais Melin Meloch gan fod y cynghorwyr yn cytuno'n gryf yn amcanion a phwrpas Cytundeb 106 a dim yn credu y dylai gael ei diddymu.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..

b) Newidiadau i fynedfa Pale Hall, Llandderfel.
Darllenwyd yr ohebiaeth a dderbyniwyd a chafwyd cadarnhad fod Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd wedi mynychu'r safle a thrafod gyda'r perchennog.

**vi) Materion Ariannol.**
a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau)
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Mehefin a chafwyd yn gywir.

b) Taliadau.
Cytunwyd i dalu –
i) Cyflog a Chostau'r Clerc (Ebr-Meh)
ii) TWE
iii) Sion Jones (torri glaswellt y mynwentydd)

**vii) Materion lleol.**
a) Problem parcio yn Llanfor.
Derbyniwyd cwynion am y diffyg llefydd parcio yn y pentref yn enwedig o flaen Elland House. Roedd y clerc wedi gwneud ymholiadau ac wedi cael cadarnhad mae tir preifat oedd y llecyn o flaen Elland House.

b) Perchnogaeth tir ger yr afon Hafesb, Llandderfel.
Roedd un o drigolion y pentref wedi cwestiynnu pwy oedd yn gyfrifol am ddarn o dir rhwng y wal a'r afon gan fod pryder fod y gordyfiant yn effeithio'r wal gynnal gerllaw. Adroddodd y clerc fod y Cyng. Elwyn Edwards yn gwneud ymholiadau ar eu rhan.

c) Cofeb Tryweryn.
Eglurodd y clerc fod y bwriad o greu Cofeb Tryweryn wedi ei ail godi. Cofeb o waith y diweddar John Meirion Morris i goffau cymuned Capel Celyn, i'w osod ger yr argae yn Llyn Celyn. Bydd cyfarfod yn fuan er mwyn ffurfio pwyllgor i symud y prosiect yn ei flaen ac mi fydd y Cyngor Cymuned yn cael eu hysbysu o'r datblygiadau.

ch) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-
i) Cais am fin baw cwn i bentref Llanfor.
ii) Bagiau sbwriel wedi cael eu gadael yn y gilfan fach sydd rhwng Tŷ Nant a Cynlas, Cefnddwysarn.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Medi 3ydd am 7.30 y.h. yn Neuadd Mynach.**


Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..